

## Croeso,

Cymuned@BywydCampws, Prifysgol Abertawe, ydym ni ac rydym yn gweithio gyda chi i greu cymunedau cydlynol a chefnogol. Mae ein tîm yn cynnwys Mandy Williams (Rheolwr Cymunedol), James Slattery, (Swyddog Cyswllt â Chymunedau) ac Elinor Thomas (Cynorthwy-ydd Cyswllt â Chymunedau).

Mae'r rhifyn cyntaf hwn o'r cylchlythyr tymhorol yn rhoi newyddion a dyddiadau allweddol digwyddiadau yn y gymuned.

Cynhelir ein digwyddiad cyntaf yn y gymuned ddydd Mercher 29 Mai 2019 yng Nghanolfan Gymunedol Brynmill rhwng 11am ac 1pm. Dyma ddigwyddiad i'r teulu yn ystod hanner tymor a bydd gweithgareddau i blant, lluniaeth a gwybodaeth am rai o wasanaethau'r Brifysgol y gall aelodau'r gymuned fanteisio arnynt. Bydd hefyd gyfle i gael sgwrs â ni a'n partneriaid, Heddlu De Cymru, Cyngor Abertawe a'r Drindod Dewi Sant. Gobeithiwn y byddwch yn ymuno â ni.



## Beth sydd ymlaen?

### 15 Mai 2019

1.30pm – Cyfarfod yn swyddfa Darganfod ar Gampws Parc Singleton i lanhau Parc Brynmill

### 15 Mai 2019

7.30pm – Pryd o fwyd cymunedol yn Ffreutur Ty Fulton ar Gampws Parc Singleton

### 29 Mai 2019

11am tan 1pm – Digwyddiad cymunedol yng Nghanolfan Gymunedol Brynmill, croeso i bawb

### 6 Mehefin 2019

10am tan 4pm – EID yn y Parc – Diwrnod Hwyl i'r Teulu ym Mharc Singleton

### 16 Mehefin 2019

Dawns yr Haf

### 22 – 27 Gorffennaf 2019

Wythnos Raddio

### 24 Gorffennaf 2019

Dawns Raddio

### 20 – 29 Medi 2019

Wythnos Cyrraedd a Chroeso

## Darganfod

Elusen yn y Brifysgol sydd ag oddeutu 600 o wirfoddolwyr sy'n rhan o fwy na 30 o brosiectau gwirfoddoli ar draws Abertawe yw Darganfod. Mae Darganfod yn cynnig ystod eang o gyfleoedd cyffrous o ran gweithgareddau a arweinir gan fyfyrwyr yn y gymuned ac mae hyn yn arwain at ddealltwriaeth a chydaddoldeb gwell i'r ddwy ochr. Mae'r rhain yn amrywio o ddigwyddiadau glanhau traethau, clybiau ieuencid, garddio, addurno, sesiynau darllen gyda ffrind, prosiectau cyfnewid oedran a llawer mwy. I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn maen nhw'n ei wneud ac i gymryd rhan, ewch i <http://www.swansea.ac.uk/discovery/>

## Pryd o fwyd yn y gymuned

Digwyddiad i'r rhai sy'n hoff o fwyd sy'n croesawu'r gymuned leol. Cynhelir y digwyddiad ar Gampws Parc Singleton, y Ffreutur yn Nhy Fulton.

Pryd: Dydd Mercher cyntaf a thrydydd dydd Mercher bob mis. Cysylltwch â Darganfod i gadw lle: [Discovery@abertawe.ac.uk](mailto:Discovery@abertawe.ac.uk)

## Eid yn y Parc

Bydd Ramadan yn dechrau ar 6 Mai, sef y mis y mae Moslemiaid yn ymprydio cyn gwyl Eid. Ymprydio yw pedwerydd piler Islam ac mae ganddo arwyddocâd crefyddol pwysig i Foslemiaid. Mae gennym nifer fawr o fyfyrwyr Moslemaidd o bedwar ban byd yn y Brifysgol ac rydym yn ystyried Eid yn rhan bwysig o galendr digwyddiadau'r Brifysgol. I ddathlu Eid, ceir digwyddiad Eid yn y Parc llawn hwyl i'r teulu ddydd Sul 9 Mehefin ym Mharc Singleton. Dewch i ymuno â ni.

Oes gennych gwestiwn neu eisiau cysylltu â ni?

[community.campuslife@swansea.ac.uk](mailto:community.campuslife@swansea.ac.uk)

Neu ffoniwch ni ar 01792 606557